Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Vale View Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 01 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 02 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80535-385-0

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ....................................................... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ....................................................... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ....................................................... 8

- Ansawdd Profiad y Claf ....................................................... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ....................................................... 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ....................................................... 15

4. Y camau nesaf ....................................................... 17

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............... 18

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ....................................................... 19

Atodiad C – Cynllun gwella ....................................................... 20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Vale View Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 01 Tachwedd 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod staff ym mhractis Vale View Dental Care yn ymroi i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer eu cleifion, a oedd yn cynnal eu hurddas a'u cyfrinachedd ar yr un pryd. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dim ond yn Saesneg mae'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael ar hyn o bryd. Rhoesom wybod i reolwr y practis y dylai'r ddwy ddogfen fod ar gael i'r cleifion yn Gymraeg a Saesneg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymerodd staff y practis fesurau effeithiol i leihau'r risg o drosglwyddo heintiau yn y lleoliad, gan gynnwys defnyddio gorchuddion wyneb a gorsafoedd diheintio dwylo.
- Gwelsom dystiolaeth fod prosesau da ar waith ar gyfer cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom dystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith yn y lleoliad i reoli heintiau. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd hyfforddiant gorfodol i'r holl staff, a oedd yn cynnwys rheoli heintiau a diogelwch tân, hefyd yn gyfredol.

Roedd hi'n glir fod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, a bod y practis yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis gwblhau'r archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

- Roedd gan y practis gofrestr gynhwysfawr o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn amlwg yn Vale View Dental Care.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff a gwnaethant gadarnhau bod y rheolwyr yn annog hyfforddiant ychwanegol. Roedd hyfforddiant gorfodol pob aelod o'r staff yn gyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd tystiolaeth fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, gyda chofnodion yn cael eu cofnodi'n briodol amdanynt.
- Roedd hi'n amlwg bod y staff yn cydweithio'n dda fel tîm a bod ganddynt berthynas dda â chleifion.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o saith o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Nododd un o'r sylwadau a ddarparwyd ar un o'r holiaduron:

*"Practis proffesiynol iawn, dim angen newid"*

### Cadw'n Iach

**Diogelu a Gwella Iechyd**
Gwelsom dystiolaeth o newidiadau a wnaed i'r amgylchedd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r practis wedi cynnal polisi 'cloi drysau', lle caiff y brif fynedfa ei chadw dan glo a dim ond mynediad i gleifion ar gyfer apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw a ganiateir. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni fod y staff i gyd yn teimlo fod hyn wedi parhau i weithio'n dda.

Roedd gorsafoedd diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r practis ac roedd posteri yn rhoi gwybodaeth am COVID-19 yn cael eu harddangos. Gwelsom for pob aelod o'r staff yn gwisgo gorchuddion wyneb ac roedd y cleifion hefyd yn cael eu hannog i wisgo masgiau tra roeddent yn y practis. Roedd masgiau newydd ar gael wrth y fynedfa i unrhyw gleifion a oedd heb ddod â'u gorchudd wyneb eu hunain.

Dywedodd y saith claf a gwblhaodd eu holiaduron adborth fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Nododd y saith claf hefyd fod y staff deintyddol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Gwelsom fod enw ac oriau agor y practis i'w gweld yn glir y tu allan i'r adeilad. Cafodd y manylion cyswllt mewn argyfwng eu dangos yn glir hefyd.

## Gofal ag urddas

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Cafodd drysau'r ddeintyddfa eu cadw dan glo yn ystod apwyntiadau'r cleifion ac oherwydd polisi cloi drysau'r practis, roedd yr ystafelloedd aros yn aml yn wag. Byddai hyn yn caniatáu sgyrsiau preifat â staff y dderbynfa os oedd angen.

Os oedd angen i'r cleifion siarad ag aelod o staff yn breifat, dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddent naill ai'n cael eu gwahodd i'r swyddfa, neu i ddeintyddfa wag i gael y sgwrs. Cawsom wybod hefyd y gallai'r ardal aros i fyny'r grisiau gael ei defnyddio ar gyfer sgyrsiau cyfrinachol os oeddent yn wag.

Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni fod un o nyrsys dan hyfforddiant y practis yn siarad Cymraeg, ond nid yw'n gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' i ddangos hyn ar hyn o bryd. Gwnaethom ofyn i reolwr y practis sicrhau y ceir bathodyn i'r sawl sy'n siarad Cymraeg. Gwnaethom hefyd argymell eu bod yn gofyn i'r nyrs dan hyfforddiant recordio neges peiriant ateb ddwyieithog ar gyfer y lleoliad, ac felly'n gwella'u gwasanaeth dwyieithog ymhellach.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos yn y ddwy iaith yn yr ardal aros, gan gynnwys gwybodaeth y GIG a pholisi cwyno'r lleoliad. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael. Rhoesom wybod i reolwr y practis fod angen i'r dogfennau hyn fod ar gael i'r cleifion yn Gymraeg a Saesneg.

Mae gwasanaeth cyfieithu hefyd ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd lleol.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn cynnwys polisi cwyno'r practis a gwybodaeth 'Gweithio i Wella'. Roedd gwybodaeth am COVID-19 hefyd yn cael ei harddangos yn y practis ac mae'r staff yn parhau i wisgo masgiau wyneb.

Caiff holiaduron cyn sgrinio COVID-19 eu hanfon at bob claf drwy e-bost a neges destun cyn ei apwyntiad. Bydd staff y dderbynfa hefyd yn ffonio'r cleifion i

gwblhau'r holiadur gyda nhw os oedd angen. Caiff pob claf hefyd ei holi am symptomau COVID-19 wrth y drws ar ddiwrnod ei apwyntiad.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei roi mewn modd amserol. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni mai prin y ceir achosion o oedi yn y practis, ond os oedd angen, byddai'r staff yn cysylltu â'r cleifion cyn eu hapwyntiad ac yn gofyn iddynt ddod i mewn yn hwyrach.

Os bydd achos o oedi a bod y claf eisoes wedi cyrraedd y practis, bydd y staff naill ai'n gofyn i'r cleifion aros yn eu car neu yn eu gwahodd i aros yn yr ystafell aros.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oes system trefnu apwyntiadau ar-lein yn cael ei defnyddio yn y practis a bod pob apwyntiad yn cael ei drefnu dros y ffôn. O'r saith claf a gwblhaodd holiaduron, nododd pump ohonynt eu bod yn ei chael hi'n ‘gymharol hawdd’ trefnu apwyntiad pan oedd angen un arnynt a nododd dau eu bod yn ei chael hi'n ‘hawdd iawn’.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Nododd pob ymatebydd i'r holiaduron fod y wybodaeth a roddir iddo yn ystod ei apwyntiad yn cael ei hesbonio mewn ffordd y gall ei deall bob tro. Dywedodd y cleifion hyn hefyd eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

**Hawliau pobl**

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a gwelsom dystiolaeth ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan bob aelod o'r staff. Roedd polisi gwrth-fwlio a pholisi aflonyddu ar waith yn y practis hefyd. Cafodd y ddau eu cynnwys yn y pecyn sefydlu i staff newydd, ynghyd â'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd gan y lleoliad fynediad addas i bobl anabl. Roedd hyn yn cynnwys mynedfa i bobl anabl yng nghefn yr adeilad, deintyddfa ar y llawr gwaelod a thoiled i bobl anabl ar y llawr gwaelod.

**Gwrando a dysgu o adborth**

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys y broses sydd angen ei dilyn, y terfynau amser ar gyfer ymateb, a'r aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym os bydd aelod o staff yn cael cwyn gan glaf ar lafar, byddai'r staff yn rhoi'r cyfle iddynt wneud cwyn ffurfiol. Os oedd y claf yn dymuno gwneud y gŵyn yn un ffurfiol, byddai'r aelod o'r staff yn nodi'r holl wybodaeth ac yn cofnodi'r gŵyn, gan ddilyn gweithdrefnau swyddogol y practis. Yna, byddai'r gŵyn yn cael ei thrafod yn y cyfarfod tîm nesaf ar yr amserlen.

Gwelsom dystiolaeth fod Vale View Dental Care wrthi'n ceisio cael adborth gan gleifion. Roedd blwch sylwadau ac awgrymiadau yn yr ardal aros a gallai'r cleifion hefyd ddarparu adborth ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y practis. Roedd adborth yn cael ei annog yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**
Roedd yn amlwg bod y practis mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân ac yn daclus. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gyda deintyddfa ac ardal aros ar bob llawr. Roedd y deintyddfeydd, yn ogystal â'r ardaloedd aros cymunedol, yn fawr ac yn lân.

Roedd toiledau ar gael i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd arwyddion clir ar eu cyfer ac roeddent yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethom nodi fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant tân ac roedd arwyddion allanfa dân yn cael eu harddangos yn glir drwy'r practis.

Gwnaethom hefyd adolygu'r systemau sydd ar waith ar gyfer ymarferion tân. Cynhelir y rhain bob chwe mis ac mae aelod o staff dynodedig yn gyfrifol am wirio'r cyfarpar tân a phrofi'r larymau tân yn wythnosol.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag amrywiaeth o asesiadau risg. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg diogelwch tân, asesiad risg amgylcheddol ac asesiad risg iechyd a diogelwch. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

**Atal a rheoli heintiau**
Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Darparodd rheolwr y practis nifer o bolisïau i ni o ran gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis. Roedd hyn yn cynnwys hylendid dwylo, a threfniadau rheoli heintiau'r clinig. Roedd tystiolaeth hefyd fod gweithdrefnau cadarn ar waith i waredu gwastraff clinigol ac roedd amserlenni glanhau effeithiol ar waith.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan bob aelod o'r staff dystysgrifau hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol.

**Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR).

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd prosesau diogel ar waith mewn perthynas â hyn. Roedd yr holl gyffuriau brys yn gyfredol ac yn cael eu storio'n unol â'r canllawiau lleol.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith a chofnodion clir o unrhyw feddyginiaethau a roddwyd.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**
Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym maes diogelu oedolion a phlant. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogaeth a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a gwneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**
Gwelsom dystiolaeth fod gan y cyfleusterau clinigol yn y practis yr holl offer perthnasol ac roedd y deintyddfeydd yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus. Gwnaethom edrych ar ffeiliau hyfforddiant y staff a chadarnhawyd bod yr holl unigolion perthnasol wedi cael yr hyfforddiant priodol diweddaraf, er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r offer yn ddiogel.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Roedd yn glir bod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Gwelsom fod manylion y trefniadau hyn wedi'u hamlinellu ym mholisïau a gweithdrefnau'r practis, yn ogystal â'r datganiadau o ddiben.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**
Gwelsom dystiolaeth fod nifer o archwiliadau clinigol wedi'u cynnal yn y practis, gan gynnwys archwiliadau o gardiau cofnodion a rhoi'r gorau i smygu. Fodd bynnag, nid

yw'r practis wedi cynnal archwiliad o ragnodi gwrthfiotigau Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid (CAPRO) eto. Rhoesom wybod i reolwr y practis fod angen i'r archwiliad hwn fod ar waith cyn gynted â phosibl.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd polisi diogelu data a pholisi cyfrinachedd staff ar waith yn y practis. Roedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel.

**Cadw cofnodion**

Gwnaethom adolygu detholiad o gofnodion cleifion a gwelsom fod pob un wedi'i gwblhau ac yn cael ei gynnal i safon dda. Roedd yr holl gofnodion a adolygwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys dynodyddion cleifion, hanes deintyddol cleifion, rheswm dros fynychu a thystiolaeth o gydsyniad ar sail gwybodaeth.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd**

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis. Gwelsom fod copi cyfredol o'r strwythur staffio ar gael yn y ffeil polisïau. Gall pob aelod o'r staff gael gafael ar hwn. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Mae gan y practis hefyd reolwr practis clinigol a oedd hefyd yn gweithio fel nyrs ddeintyddol. Yr unigolyn cyfrifol ar gyfer y practis oedd y prif ddeintydd hefyd. Gwelsom fod yr holl unigolion hyn yn ymroi i'w rolau.

Gwelsom fod y tîm o staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac roedd y gydberthynas rhyngddynt a'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd a'r cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad yn dystiolaeth o hyn.

Mae gan y practis gofrestr helaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom edrych ar nifer o'r rhain, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac wedi cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd hi'n amlwg o'r dyddiadau adolygu a nodwyd ar bob polisi eu bod yn cael eu hadolygu bob blwyddyn gan reolwr y practis.

Gwelsom fod y staff yn ymwybodol o'r polisïau sydd ar waith. Roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i ddynodi ei fod wedi darllen y polisïau perthnasol a rhoddodd rheolwr y practis wybod fod hyn hefyd yn cael ei orfodi drwy'r system ar-lein, iComply.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn fisol a bod cofnodion yn cael eu cymryd o'r cyfarfodydd hynny.

**Y Gweithlu**

Gwnaethom adolygu'r polisïau a amlinellodd y broses a ddefnyddir i recriwtio aelodau newydd o staff ac i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff. Mae'r aelodau newydd o staff yn cwblhau proses sefydlu gadarn, sy'n cynnwys darllen y llawlyfr polisi a chwblhau'r hyfforddiant dihalogi a hyfforddiant gorfodol arall.

Cedwir ffeiliau staff, a gwelsom eu bod yn cynnwys tystiolaeth o gofrestriad pob aelod o'r staff â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y mae'r rheolwr cofrestredig yn talu amdano bob blwyddyn. Roedd y ffeiliau hefyd yn cynnwys contractau cyflogaeth, tystiolaeth o frechiadau Hepatitis B a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith. Roedd y staff yn ymwybodol o hyn a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus yn codi unrhyw broblemau neu bryderon am y gofal a ddarperir i gleifion.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw welliannau** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Insert name

## Dyddiad yr arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Vale View Dental Care**

**Dyddiad yr arolygiad: 01/11/2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Mae angen i reolwr y practis gwblhau archwiliadau rhagnodi gwrthfiotigau CAPRO.** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (1) (a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd a 3.5 Cadw cofnodion | Gwnaethom gofrestru i gwblhau'r archwiliad gwrthfeicrobaidd ar 01/11/2022. Gwnaethom gwblhau'r archwiliad ar 20/12/2022. Rydym wrthi'n aros am adborth a thystysgrifau gan swyddog cymorth prosiect gwella ansawdd deintyddol AaGIC. O'u derbyn, byddwn yn tystio bod y tystysgrifau hyn wedi'u cwblhau. | Christian Hoes<br><br>Prif ddeintydd /perchennog | Yn aros am adborth a thystysgrifau ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio derbyn y rhain o fewn yr wythnosau nesaf. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gofynnwn i'r practis gynnig y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben yn Gymraeg a Saesneg.** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (1) (a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Mae'r datganiad o ddiben wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Rydym yn y broses o gyfieithu'r daflen wybodaeth i gleifion ar hyn o bryd. O'i chwblhau, bydd hon i'w gweld mewn fformat digidol drwy wefan ein practis ac ar gopi caled yn y practis a bydd hwn ar gael ar gais. | Christian Hoes<br><br>Prif ddeintydd /perchennog | Mae Taflen Wybodaeth y Practis yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd. Bydd hon yn cael ei chwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf. |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Christian Hoes**

**Teitl swydd: Prif ddeintydd/perchennog**

**Dyddiad: 21/12/2022**